Dyma'r Cwestiynau Cyffredin ar gyfer

# Cronfa Ffilmiau Byrion Beacons 2024
# Ffilm Cymru Wales

## Cynnwys


Amserlen....4

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yn y cylch hwn o Beacons?....4

Pryd fyddaf i'n clywed a fu fy nghais yn llwyddiannus?....4

Rwyf eisoes wedi saethu fy ffilm. A allaf i ymgeisio am gyllid cwblhau?....4

Rwyf eisiau saethu fy ffilm yn 2024, a allaf i ymgeisio?....4

Cymhwysedd Unigolyn / Tîm....5

Rwyf o dan 18 oed / yn fyfyriwr amser llawn, a allaf i ymgeisio?....5

Dydw i ddim wedi gwneud unrhyw waith sgrin o'r blaen, a allaf i ymgeisio?....5

Gwaith sgrin ar gyllideb isel yn unig rwy wedi'i wneud o'r blaen, a allaf i ymgeisio?....5

Rwyf wedi cael ffilm fer wedi'i hariannu / comisiynu gan ddarlledwr o'r blaen, a allaf i ymgeisio?....5

Rwyf wedi creu ffilm nodwedd o'r blaen, a allaf i ymgeisio?....6

Rwyf wedi derbyn cymorth gan Ffilm Cymru o'r blaen. Ydw i'n gymwys i ymgeisio?....6

A oes angen i mi fod o Gymru a/neu yn byw yng Nghymru i fod yn gymwys i ymgeisio?....6

Nid yw ein cyfarwyddwr yn enedigol o Gymru nac yn seiliedig yng Nghymru, ond mae eraill yn ein tîm. A allwn ni ymgeisio?....7

Does gen i ddim cynhyrchydd yn rhan o'r tîm eto, a allaf i ymgeisio?....7

A allaf i gyfarwyddo a chynhyrchu fy ffilm? ....................................7
A oes angen bod cast a chriw yn eu lle pan rwy'n ymgeisio? ...........7
Cymhwysedd y Prosiect ..........................................................................7
Beth yw'r hyd lleiaf/mwyaf y gall y ffilm fod? ................................7
Mae fy ffilm yn ddarn hybrid/arbrofol, a allaf i wneud cais? ...........8
A allaf ymgeisio i wneud ffilm fer i brofi'r cysyniad ar gyfer ffilm nodwedd? ....................................................................................8
Mae gen i syniad am beilot teledu, a allaf i ymgeisio? .....................8
Cyflwyno Cais .........................................................................................10
Pa ffurflen gais ddylwn i ei llenwi? Beth os yw fy ffilm yn gyfuniad o weithredu byw ac animeiddio / ffuglen a dogfen / animeiddio a dogfen NEU hybrid arall? ..........................................................10
Mae fy ffilm yn y Gymraeg yn llwyr/rhannol. A allaf gyflwyno fy nghais yn Gymraeg? ................................................................10
Beth yw uchafswm y cyllid y gallaf ymgeisio amdano? ..................10
Faint o gyllideb fy ffilm fydd Beacons yn ei ariannu? .....................11
A oes modd i mi gael rhywfaint o arweiniad ar gwblhau fy nghyllideb? ..................................................................................11
A allaf gyflwyno mwy nag un cais? .................................................11
A allaf ailgyflwyno prosiect a oedd yn aflwyddiannus yn flaenorol? ...................................................................................................11
A allaf gael rhywfaint o gymorth i wneud cais? ..............................12
Asesu ac Adborth ...................................................................................13
Pwy fydd yn edrych ar fy nghais? ...................................................13
A fyddaf yn derbyn adborth os bydd fy nghais yn aflwyddiannus? 13
Gweithio gyda Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales .............................14
Beth fydd yn ddisgwyliedig ohonof i / fy nhîm os byddwn yn llwyddiannus? ...............................................................................14
A fyddaf yn cael fy nhalu os yw fy ffilm fer yn cael ei gwneud drwy Beacons? ...................................................................................14

A fyddaf yn berchen ar fy ffilm fer os caiff ei gwneud drwy Beacons? ....... 15
Pa hyfforddiant a mentora fydd ar gael? ....... 15
A fydd cymorth mynediad ar gael i mi, fy nghast a/neu'r criw? ....... 16
Pa hawliau fydd gan BBC Wales i fy ffilm? ....... 16
A fydd modd i mi gyflwyno fy ffilm i wyliau ffilm? ....... 16
A fydd modd i mi roi fy ffilm fer ar-lein cyn / ar ôl iddi gael ei darlledu gan BBC Cymru Wales? ....... 17
Ffynonellau Cyllido Eraill ....... 17
Pa opsiynau sydd gen i os na fydd fy ffilm fer yn llwyddiannus? ....... 17
Pa ffynonellau cyllido eraill sydd ar gael i fy ffilm fer, os nad ydw i'n gymwys ar gyfer Beacons? ....... 17
Cysylltu ....... 18
Â phwy allaf i gysylltu os oes gen i gwestiynau pellach? ....... 18

# Amserlen

**Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yn y cylch hwn o Beacons?**
Mae ceisiadau'n cau ar ddydd Gwener 19 Gorffennaf 2024 am 3pm.

**Pryd fyddaf i'n clywed a fu fy nghais yn llwyddiannus?**
Caiff ymgeiswyr glywed a ydyn nhw wedi'u dewis i'r rhestr fer erbyn 30 Medi 2024.

**Rwyf eisoes wedi saethu fy ffilm. A allaf i ymgeisio am gyllid cwblhau?**
Gan mai cynllun datblygu a chynhyrchu yw Beacons, ni allwn gefnogi ffilmiau byrion sydd eisoes yn cael eu cynhyrchu neu ar gam ôl-gynhyrchu.

Os mai ffilm ddogfen yw eich prosiect, efallai eich bod eisoes wedi ffilmio neu ymchwilio i rywfaint o ffilm ond heb ddechrau ar y prif elfennau cynhyrchu eto.

Os mai animeiddiad yw eich prosiect, mae'n bosibl bod eisoes gennych chi ddrafft o animatig (h.y. ddim yn derfynol) ond nad ydych chi wedi dechrau ar waith animeiddio eto.

**Rwyf eisiau saethu fy ffilm yn 2024, a allaf i ymgeisio?**
Ni fydd penderfyniadau ynghylch dyfarnu cyllid cynhyrchu yn y cylch hwn o Beacons yn digwydd tan ddechrau 2025, yn dilyn cyfnod o ddatblygu dwys. Disgwyliwn y bydd y ffilmiau byrion llwyddiannus yn cael eu cynhyrchu yn ystod Gwanwyn/Haf 2025.

# Cymhwysedd Unigolyn / Tîm

**Rwyf o dan 18 oed / yn fyfyriwr amser llawn, a allaf i ymgeisio?**
Un o'n meini prawf cymhwysedd allweddol yw bod yn rhaid i awdur, cyfarwyddwr a chynhyrchydd (os oes un yn rhan o'r tîm) y prosiect i gyd fod dros 18 oed ac wedi gorffen addysg amser llawn (neu y byddan nhw wedi cwblhau addysg amser llawn erbyn 1 Awst 2024).

Bydd angen cwblhau unrhyw waith fel myfyriwr yn llawn erbyn 1 Awst 2024, sy'n golygu bod deunydd cwrs, prosiectau terfynol a/neu draethodau hir wedi'u cyflwyno, bod yr holl arholiadau wedi'u cwblhau, ac na fyddwch yn mynd i flwyddyn astudio bellach yn ddiweddarach yn 2024 neu yn 2025.

**Dydw i ddim wedi gwneud unrhyw waith sgrin o'r blaen, a allaf i ymgeisio?**
Gallwch, os oes gennych brofiad creadigol blaenorol o ysgrifennu, cyfarwyddo neu gynhyrchu mewn cyfrwng naratif, er enghraifft theatr, perfformio neu ysgrifennu nofel.

**Gwaith sgrin ar gyllideb isel yn unig rwy wedi'i wneud o'r blaen, a allaf i ymgeisio?**
Gallwch. Efallai bod yr ymgeiswyr wedi gwneud gwaith blaenorol fel myfyrwyr, gwaith wedi'i hunan-ariannu neu waith wedi'i ariannu'n breifat ar gyllideb isel.

**Rwyf wedi cael ffilm fer wedi'i hariannu / comisiynu gan ddarlledwr o'r blaen, a allaf i ymgeisio?**
Gallwch. Rhan o'n hasesiad fydd ystyried sut bydd creu ffilm Beacons yn datblygu eich gyrfa, felly meddyliwch am hyn wrth lunio eich cais. Er enghraifft, a fydd y prosiect arfaethedig yn fwy uchelgeisiol na'ch ffilm fer flaenorol, neu efallai'n caniatáu i chi brofi eich syniadau mewn cyfrwng gwahanol?

**Rwyf wedi creu ffilm nodwedd o'r blaen, a allaf i ymgeisio?**
Ni ddylai cyfarwyddwr y prosiect fod wedi cyfarwyddo ffilm nodwedd sydd wedi'i dosbarthu yn y DU eto. Mae hyn yn golygu naill ai'n theatrig neu drwy blatfform mawr ar-lein, lle gwnaed cytundeb dosbarthu ar gyfer y ffilm – yn wahanol i hunanddosbarthu.

Gallai'r awduron a'r cynhyrchwyr fod yn fwy profiadol.

Yn achos Beacons, rhan o'n hasesiad fydd ystyried pa fudd fydd i yrfa'r gwneuthurwyr ffilmiau yn sgil creu'r ffilm fer arfaethedig. Felly, os ydych yn ymgeisio, mynegwch hyn yn glir yn eich cais.

Os ydych wedi gwneud ffilm nodwedd o'r blaen a gafodd ei dosbarthu yn y DU, efallai y bydd ein Cronfa Datblygu Ffilmiau Nodwedd yn fwy addas i chi.

**Rwyf wedi derbyn cymorth gan Ffilm Cymru o'r blaen. Ydw i'n gymwys i ymgeisio?**
Ydych. Serch hynny, os oes gennych ddyfarniad gennym ni sydd ar y gweill, mynnwch air â'r swyddog gweithredol perthnasol cyn gwneud cais er mwyn iddyn nhw eich cynghori.

**A oes angen i mi fod o Gymru a/neu yn byw yng Nghymru i fod yn gymwys i ymgeisio?**
Mae'n rhaid bod y cyfarwyddwr neu'r awdur-gyfarwyddwr ar y prosiect naill ai wedi'u geni yng Nghymru neu'n seiliedig yng Nghymru, neu'r ddau. Nid oes angen i aelodau eraill y timau fod wedi'u geni yng Nghymru na bod yn seiliedig yng Nghymru, er ein bod yn croesawu timau cyfan o Gymru.

Os oes unrhyw un o'ch tîm craidd heb fod yn seiliedig yn y Deyrnas Unedig, noder bod yn rhaid i'ch prosiect fod yn gymwys i gael ei ystyried yn Brydeinig drwy un o'r Profion Diwylliannol ar gyfer Ffilmiau, un o Gytuniadau Cydgynhyrchu swyddogol y Deyrnas Unedig NEU'R Confensiwn Ewropeaidd ar Gydgynhyrchu Sinematig.

**Nid yw ein cyfarwyddwr yn enedigol o Gymru nac yn seiliedig yng Nghymru, ond mae eraill yn ein tîm. A allwn ni ymgeisio?**
Yn anffodus, ni allwn dderbyn ceisiadau gan dimau lle nad yw'r cyfarwyddwr neu'r awdur-gyfarwyddwr yn enedigol o Gymru nac yn seiliedig yng Nghymru.

**Does gen i ddim cynhyrchydd yn rhan o'r tîm eto, a allaf i ymgeisio?**
Gallwch, fe allwch chi ymgeisio heb gynhyrchydd. Gall Ffilm Cymru helpu i hwyluso sgyrsiau gyda chynhyrchwyr ar gyfer prosiectau llwyddiannus.

**A allaf i gyfarwyddo a chynhyrchu fy ffilm?**
Yn sgil y gofynion a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chreu a chyflawni ffilm fer wedi'i hariannu gan y diwydiant, dylai'r cyfarwyddwyr gynllunio i weithio gyda chynhyrchydd (neu gynhyrchwyr) yn hytrach nag ymgymryd â'r rôl hon.

**A oes angen bod cast a chriw yn eu lle pan rwy'n ymgeisio?**
Na, does dim angen bod cast a chriw yn eu lle, gan mai cynllun i brosiectau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yw Beacons. Efallai eich bod eisoes yn gweithio gyda gweithwyr creadigol allweddol, ac os felly rhowch eu manylion yn yr adran briodol yn y ffurflen gais.

## Cymhwysedd y Prosiect

**Beth yw'r hyd lleiaf/mwyaf y gall y ffilm fod?**
Nid oes hyd lleiaf, er bod rhan fwyaf o ffilmiau Beacons rywle rhwng 5 a 15 munud.

Gall yr hyd priodol fod yn wahanol. Er enghraifft, efallai y bydd ffilm wedi'i hanimeiddio yn fyrrach na ffilm gweithredu byw oherwydd costau uchel a/neu amserlen gynhyrchu hirach. Ac efallai y bydd y

rhai nad ydyn nhw wedi gwneud gwaith sgrin o'r blaen yn dymuno rhoi cynnig ar eu syniadau mewn darn byrrach.

Yr hyd mwyaf y gall ffilmiau Beacons fod yw 15 munud.

**Mae fy ffilm yn ddarn hybrid/arbrofol, a allaf i wneud cais?**
Rydym yn croesawu pob math ffilmiau lle mae'r bwriad yw eu dangos ar y sgrin fawr. Dylai eich ffilm fod yn addas i gynulleidfaoedd gwyliau ffilm, a dylai eich tîm allu dangos uchelgais i symud ymlaen i weithio ym maes ffilmiau nodwedd.

Sylwer na allwn ariannu gosodiadau na gwaith delwedd symudol gan artist, NA gwaith lle mai'r bwriad pennaf yw dal ffurf arall ar gelfyddyd (fel theatr, dawns, y gair llafar, barddoniaeth). Efallai y bydd ffynonellau cyllid eraill ar gael, e.e. drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

**A allaf ymgeisio i wneud ffilm fer i brofi'r cysyniad ar gyfer ffilm nodwedd?**
Gallwch. Gall eich prosiect fod â'r bwriad o brofi'r cysyniad ar gyfer ffilm nodwedd. Fodd bynnag, dylai hefyd weithio fel ffilm fer ar ei phen ei hun gyda'i naratif cyflawn ei hun.

Os ydych yn awdur, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd sefydledig sydd â phrofiad creadigol ym myd ffilm neu ffurf arall ar gelfyddyd (e.e. theatr, radio, cerddoriaeth, celf, ysgrifennu nofel) ac mae gennych ffilm nodwedd yn cael ei datblygu, fe'ch cynghorwn i edrych hefyd ar ein Cronfa Datblygu Ffilmiau Nodwedd rhag ofn y bydd hyn yn fwy addas i chi.

**Mae gen i syniad am beilot teledu, a allaf i ymgeisio?**
Ni allwn dderbyn ceisiadau ar gyfer rhaglenni peilot i'r teledu.

Os mai peilot i'r teledu yw eich syniad, awgrymwn eich bod yn cymryd golwg ar gyfleoedd BBC Writers' Room.

# Cyflwyno Cais

**Pa ffurflen gais ddylwn i ei llenwi? Beth os yw fy ffilm yn gyfuniad o weithredu byw ac animeiddio / ffuglen a dogfen / animeiddio a dogfen NEU hybrid arall?**
Mae yna dair ffurflen gais: Ffuglen Gweithredu Byw, Animeiddio a Ffilm Ddogfen.

Os yw eich ffilm yn gorwedd yn un o'r categorïau hyn yn unig, defnyddiwch y ffurflen berthnasol.

Ond efallai bod eich ffilm yn gyfuniad o sawl categori. Os felly:

- Os yw eich ffilm fer yn gyfuniad o weithredu byw ac animeiddio, yn defnyddio elfennau animeiddio sylweddol, neu'n ffilm ddogfen animeiddiedig neu'n ffuglen-ddogfen animeiddiedig, defnyddiwch y ffurflen Animeiddio.
- Os yw eich ffilm fer yn gyfuniad o ffuglen a dogfen ac yn weithredu byw yn llwyr, defnyddiwch ffurflen Ffilm Ddogfen.
- Os yw eich ffilm ar ffurf hybrid arall, gallwch lenwi'r ffurflen y teimlwch sydd fwyaf priodol. Cysylltwch â ni (gweler isod) os oes angen cyngor arnoch.

**Mae fy ffilm yn y Gymraeg yn llwyr/rhannol. A allaf gyflwyno fy nghais yn Gymraeg?**
Gallwch gyflwyno eich cais naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Os yw eich cais yn bennaf yn Saesneg ac mai darnau cyfyngedig yn unig o'r sgript sydd yn Gymraeg (e.e. ychydig linellau o ddeialog), byddai cyfieithiad Saesneg o'r adrannau hynny'n ddefnyddiol ond nid yn hanfodol.

**Beth yw uchafswm y cyllid y gallaf ymgeisio amdano?**
Gallwch ymgeisio am hyd at £25,000.

Rydym yn argymell eich bod yn ystyried eich lefel o brofiad blaenorol yn ofalus wrth benderfynu ar faint y prosiect a faint o gyllid y dylid gwneud cais amdano.

Bydd dyfarniadau ar y lefel uchaf o £25,000 ond yn cael eu cynnig os oes sail resymegol greadigol a strategol glir i hynny.

**Faint o gyllideb fy ffilm fydd Beacons yn ei ariannu?**
Gall Beacons ariannu hyd at 100% o gyllideb y ffilm. Fel arall, gallai'r timau godi arian pellach drwy gyllido torfol neu gytundebau trydydd parti.

Ynghlwm wrth gyllid Beacons, mae rhai cyfyngiadau ar gydnabyddiaeth cyd-gyllidwyr a chytundeb trwydded gyda BBC Cymru Wales. Os ydych yn rhagweld cyllid sylweddol o ffynonellau eraill rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â ni i drafod hyn cyn gwneud cais.

**A oes modd i mi gael rhywfaint o arweiniad ar gwblhau fy nghyllideb?**
Trowch at ein Canllawiau i weld manylion yr hyn sydd angen ei gynnwys yn adran y gyllideb yn y ffurflen gais. Os oes angen arweiniad pellach arnoch ar y gyllideb, mae croeso i chi gysylltu â ni (manylion cyswllt isod).

**A allaf gyflwyno mwy nag un cais?**
Ar gyfer y cylch Beacons yma, gall cyfarwyddwyr ac awdur-gyfarwyddwyr ymwneud â chyfanswm o UN cais yn unig. Gall awduron a chynhyrchwyr ymwneud â hyd at DDAU gais.

**A allaf ailgyflwyno prosiect a oedd yn aflwyddiannus yn flaenorol?**
Dim ond â chymeradwyaeth Ffilm Cymru y bydd modd ailgyflwyno ceisiadau a wrthodwyd yn flaenorol. Dylai ceisiadau sy'n cael eu hailgyflwyno gynnwys newidiadau sylweddol: er enghraifft, wedi'u hailysgrifennu'n sylweddol, neu newid cynhyrchydd. Os ydych yn

bodloni'r maen prawf hwn ac yn cyflwyno cais newydd am arian i'r un prosiect, mae'n rhaid i chi nodi elfennau diwygiedig y prosiect yn glir yn y cais.

Os yw eich prosiect eisoes wedi'i wrthod gan Beacons ddwywaith, ni chewch ailgyflwyno'r un prosiect eto.

**A allaf gael rhywfaint o gymorth i wneud cais?**
Rydym yn cynghori eich bod yn gyntaf yn cael golwg ar ein Canllawiau a'n hadnoddau i wneuthurwyr ffilmiau byrion drwy dudalen Beacons: cyllid ar gyfer ffilmiau byrion.

Byddwn yn cynnal rhai sesiynau un i un gyda'n tîm pe byddech ar eich ennill o gael arweiniad pellach wedi'i deilwra. Mae'r manylion i'w gweld ar ein tudalen Newyddion a Digwyddiadau. Gallwch hefyd ddilyn RHWYDWAITH BFI Cymru ar X i gael y newyddion diweddaraf.

I ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n Byddar, trwm eu clyw, Anabl, yn niwroamrywiol neu â nam ar eu golwg, mae cymorth pellach ac addasiadau ar gael. Er enghraifft, gallwn dalu am gostau darparu'r canllawiau mewn fformatau eraill (e.e. print bras), dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod gyda ni, cymorth ysgrifennydd i ymgeiswyr dyslecsig, neu weithiwr cymorth os oes angen.

Cysylltwch â ni i drafod eich gofynion yn gyfrinachol. Cawn ein harwain gennych chi.

network@ffilmcymruwales.com

Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffon ar 02922 676711.

Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn ôl yr angen er mwyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gael cyfweliad, yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd a gweithdai pellach pe byddent yn cael eu dewis

i dderbyn dyfarniad datblygu a/neu gynhyrchu. (Gweler hefyd yr adran 'Canllawiau ar Gyllideb' yn y Canllawiau i gael manylion am sut i gyllidebu ar gyfer costau mynediad ar eich cynhyrchiad).

## Asesu ac Adborth

**Pwy fydd yn edrych ar fy nghais?**
Bydd pob cais yn cael ei adolygu gan o leiaf 2 asesydd gwahanol. Bydd ein panel asesu yn cynnwys aelodau o staff tîm datblygu, cynhyrchu a sgiliau Ffilm Cymru. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn ehangu'r arbenigedd a'r profiad bywyd sy'n bwydo i mewn i'r asesiadau.

**A fyddaf yn derbyn adborth os bydd fy nghais yn aflwyddiannus?**
Rydym yn derbyn llawer mwy o geisiadau nag y gallwn eu cefnogi. Bydd adborth byr ar ffurf y prif elfennau yn cael ei ddarparu i bob ymgeisydd. Serch hynny, ni fydd modd i ni roi adborth manylach ar brosiectau sydd heb eu dethol i'r rhestr fer, oherwydd y nifer fawr o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno.

Dyma rai o'r rhesymau cyffredin am wrthod ceisiadau:

- Mae diffyg gwreiddioldeb a/neu uchelgais sgrin fawr i'r syniad.
- Mae'r stori, genre, arddull, naws a/neu'r weledigaeth greadigol arfaethedig yn aneglur.
- Byddai'r syniad yn fwy addas i fformat arall (e.e. drama, cyfres ar y we, teledu)
- Byddai'r prosiect yn gweddu'n well i ffynonellau eraill o gyllid (e.e. Cyngor Celfyddydau Cymru)
- Nid yw'r ffilm yn ymarferol o fewn y gyllideb neu'r llinell amser
- Nid yw'r tîm ar y lefel gywir i elwa'n llawn o gymorth Beacons

## Gweithio gyda Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales

**Beth fydd yn ddisgwyliedig ohonof i / fy nhîm os byddwn yn llwyddiannus?**

Mae Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales yn darparu adborth golygyddol a chymorth strategol drwy gydol y broses o greu'r ffilmiau. Rydym hefyd yn hwyluso hyfforddiant pellach a chymorth datblygu proffesiynol. Bydd disgwyl i chi gymryd rhan mewn hyfforddiant grŵp a/neu sesiynau gweithdy fel rhan o'ch dyfarniad.

Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau eich bod yn cyflenwi unrhyw ddeunyddiau y gofynnir amdanynt ac yn mynd i unrhyw gyfarfodydd yn unol â'r amserlen a gytunwyd. Bydd gofyn i Ffilm Cymru a BBC Wales gymeradwyo prif elfennau'r ffilm, gan gynnwys unrhyw arian partneriaeth, y criw, y gyllideb, yr amserlen, y sgript / bwrdd stori / animateg / ymdriniaeth derfynol cyn cychwyn cynhyrchu, toriad terfynol y ffilm a'r rhestr gydnabod. Bydd eich cytundeb ariannu yn amlinellu'r telerau allweddol.

Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau eich bod yn bodloni eich rhwymedigaethau contractiol, gan ganiatáu digon o amser ar gyfer adolygu, adborth a chymeradwyo. Rydym yn disgwyl i aelodau'r timau gydweithio â Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales bob amser, a'u dal eu hunain i safon broffesiynol.

**A fyddaf yn cael fy nhalu os yw fy ffilm fer yn cael ei gwneud drwy Beacons?**

Dylech gynllunio ar gyfer ffioedd awdur, cyfarwyddwr a chynhyrchydd yn eich cyllideb.

Dylai'r ffioedd fod yn gymesur â lefel gyffredinol cyllideb y prosiect. Yn y man lleiaf, dylai'r ffioedd hyn fod yn unol â Phenaethiaid Adrannau eraill ar y prosiect, neu'n unol â chyflogau cast a chriw ar gyfer diwrnodau saethu, pa un bynnag sydd uchaf. Ni ellir hepgor ffioedd awdur, cyfarwyddwr a chynhyrchydd ar unrhyw adeg.

Noder bod Ffilm Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i chi dalu o leiaf gyfraddau Cyflog Byw Gwirioneddol neu uwch i'r cast a'r criw sy'n gweithio ar eich ffilm.

Disgwyliwn weld ffioedd cydradd ar draws graddau ac ar draws adrannau.

I gael arweiniad pellach ar y gyllideb, edrychwch ar Ganllawiau Beacons.

**A fyddaf yn berchen ar fy ffilm fer os caiff ei gwneud drwy Beacons?**

Fel cyllidwyr, mae'n ofynnol gennym bod y cynhyrchydd neu'r cwmni cynhyrchu yn berchen ar yr hawliau i greu'r ffilm. Felly bydd yn rhaid i gytundebau gael eu llofnodi rhwng y cynhyrchydd / cwmni cynhyrchu a'r awdur a'r cyfarwyddwr er mwyn trosglwyddo'r hawliau a nodi'r telerau perthnasol, gan gynnwys Taliad a chyfran o Elw Net (os oes) o'r ffilm. Bydd Ffilm Cymru yn darparu templedi ar gyfer y cytundebau yma.

Bydd BBC Wales yn derbyn yr hawl i ddefnyddio a darlledu'r ffilmiau (gweler isod) am Gyfnod Trwydded wedi'i ddiffinio, a bydd y telerau hyn wedi'u diffinio yn y cytundeb ariannu.

**Pa hyfforddiant a mentora fydd ar gael?**

Yn ogystal â bod yn gronfa ar gyfer ffilmiau byrion, mae Beacons hefyd yn rhaglen i ddatblygu talent. Pe caiff eich tîm ei ddewis i dderbyn dyfarniad datblygu, byddwn yn trefnu sgwrs i drafod unrhyw anghenion hyfforddiant a mentora ar gyfer yr awdur, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd. Bydd y gweithgarwch yn debygol o gynnwys cyfres o sesiynau grŵp yn ogystal â gwaith unigol gyda mentoriaid.

**A fydd cymorth mynediad ar gael i mi, fy nghast a/neu'r criw?**
Bydd cymorth mynediad ar gael i'r tîm craidd i fod yn bresennol mewn unrhyw weithdai, cyfweliadau a chyfarfodydd Beacons os ydynt yn cael eu dewis i'r rhestr fer, eu dewis i'w datblygu, a/neu'n derbyn dyfarniad cynhyrchu.

Yn ychwanegol, os oes gan unrhyw rai o'ch tîm craidd, cast neu griw ofynion mynediad personol a fydd yn golygu cost yn ystod cynhyrchiad eich ffilm fer, gallwch gynnwys y costau hyn yn eich cyllideb. Gallai hyn fod yn gymorth penodol sydd ei angen ar bobl sy'n anabl neu sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Er enghraifft, dehonglydd BSL, costau trafnidiaeth neu lety ychwanegol i aelodau anabl o'r tîm, cynorthwyydd personol i aelod o'r tîm sydd ag anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl, neu gostau gofal plant.

Nodwch unrhyw gostau mynediad yn glir yn eich cyllideb fel eitem linell ar wahân. Ni fydd y costau hyn yn cyfri tuag at y mwyafswm o £25,000 o ddyfarniad.

**Pa hawliau fydd gan BBC Wales i fy ffilm?**
Fel rhan o'u buddsoddiad bydd BBC Cymru Wales yn derbyn yr hawliau i ddefnyddio a darlledu'r ffilm ar unrhyw rai o'i wasanaethau cyhoeddus yn Nheyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw at ddibenion cyfyngedig, ac yng Ngweriniaeth Iwerddon at ddibenion anghyfyngedig. Bydd cyfnod y drwydded o 5 mlynedd yn cychwyn yn dilyn cyfnod dal yn ôl cychwynnol, i ganiatáu i'r ffilmiau gael eu dangos mewn gwyliau ffilm cyn cael eu darlledu. Bydd telerau llawn cytundeb y drwydded yn cael eu nodi yn y cytundeb ariannu.

**A fydd modd i mi gyflwyno fy ffilm i wyliau ffilm?**
Bydd, bydd modd i chi gyflwyno eich ffilm i wyliau ffilm, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylech gynnwys amcangyfrif o gostau cyflwyno yn eich cyllideb.

**A fydd modd i mi roi fy ffilm fer ar-lein cyn / ar ôl iddi gael ei darlledu gan BBC Cymru Wales?**
Ni fydd modd i chi roi eich ffilm fer ar-lein hyd nes bod cyfnod trwydded perthnasol BBC Cymru Wales wedi dod i ben. Gallai rhai eithriadau gael eu gwneud ar gyfer arddangosiadau ar-lein, gyda chyfyngiadau amser, mewn cytundeb â Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales, pe byddai hyn yn ofynnol mewn cynnig dosbarthu ac yn helpu i roi sylw i'r gwneuthurwr ffilmiau yn y diwydiant.

## Ffynonellau Cyllido Eraill

**Pa opsiynau sydd gen i os na fydd fy ffilm fer yn llwyddiannus?**
Gall prosiectau sydd wedi'u datblygu drwy Beacons ond nad ydynt yn llwyddo i dderbyn dyfarniad cynhyrchu edrych am gyllid cynhyrchu o ffynonellau eraill. Noder y bydd unrhyw amodau'r cytundeb datblygu sydd yn eu lle yn dal i fod yn berthnasol, e.e. rhoi cydnabyddiaeth i gyllidwyr.

**Pa ffynonellau cyllido eraill sydd ar gael i fy ffilm fer, os nad ydw i'n gymwys ar gyfer Beacons?**
Os ydych yn newydd i faes creu ffilmiau, efallai y bydd gennych ddiddordeb yng nghynllun hyfforddiant It's My Shout.

Os ydych yn awdur, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd sefydledig ac yn edrych am gyllid i brofi cysyniad ar gyfer ffilm nodwedd, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer ein Cronfa Datblygu Ffilmiau Nodwedd.

Os ydych yn creu ffilmiau dogfen, cymerwch olwg ar y cyllid sydd ar gael gan y Doc Society.

I gael gwybod am ffynonellau cyllido a chyfleodd eraill, rydym yn argymell yn fawr eich bod yn dilyn RHWYDWAITH BFI Cymru a RHWYDWAITH BFI ar X.

## Cysylltu

**Â phwy allaf i gysylltu os oes gen i gwestiynau pellach?**
Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â:

network@ffilmcymruwales.com

Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffon ar 02922 676711.